| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Pwyllgor: | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Dyddiad y cyfarfod: | 29 Ionawr 2015 |
| Teitl: | Adroddiadau Blynyddol gan Aelodau |
| Awdur: | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros Dro |
| Pwrpas yr Adroddiad: | Adrodd ar gynnydd a gofyn am sylwadau'r Pwyllgor ar y trefniadau arfaethedig ar gyfer paratoi Adroddiadau Blynyddol Aelodau ar gyfer 2014/15. |

## 1.0 Cefndir

1.1 Rwyf wedi adrodd yn y gorffennol i'r Pwyllgor hwn mewn perthynas ag Adran 5 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 sy'n rhoi dyletswydd ar y Cyngor Sir i sicrhau bod trefniadau wedi eu gosod i Aelodau gyflwyno adroddiad blynyddol ar eu gweithgareddau.

1.2 Ar 18 Medi 2014, adroddais bod yr holl Aelodau wedi paratoi adroddiad am 2013/14 ac fe gyhoeddwyd y rhain ar wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin, 2014. Hefyd, darparwyd cyhoeddusrwydd gan Swyddfa'r Wasg.

1.3 Ysgrifennodd Gweinidog y Gwasanaethau Cyhoeddus, Leighton Andrews AC, at Arweinyddion yr holl Awdurdodau Lleol, yn amlygu darlun cymysg iawn o ran y nifer o adroddiadau blynyddol a gyhoeddwyd ar gyfer 2013/14, ac yn nodi bod Ynys Môn yn un o ddau awdurdod a oedd wedi cyhoeddi adroddiadau gan ei holl aelodau.

## 2.0 Paratoi Adroddiadau Blynyddol ar gyfer 2014/15

2.1 Gan yr ymddengys bod y templed a ddefnyddiwyd ar gyfer 2013/14 yn gyson â'r adroddiadau a gyhoeddwyd gan awdurdodau eraill, bwriedir defnyddio'r un penawdau eto eleni, gyda mân newidiadau i'r fformat er mwyn gwneud y templed yn haws i'w defnyddio (gweler atodiad 1).

2.2 Rwy'n bwriadu cylchredeg y templed i aelodau yn ystod y drydedd wythnos ym mis Mawrth 2015. Bydd y templed yn gynnwys ffigyrau presenoldeb o ran prif bwyllgorau ac is-bwyllgorau'r Cyngor, ynghyd â manylion am y sesiynau dysgu a datblygu a fynychwyd. Bwriedir gofyn i'r Aelodau gyflwyno adroddiadau drafft i'r Gwasanaethau Democrataidd erbyn 10 Ebrill 2015 er mwyn caniatáu digon o amser i gwblhau a chyhoeddi'r adroddiadau ar wefan y Cyngor erbyn 30 Mehefin 2015.

## 3.0 Argymhelliad

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor am ei sylwadau ar y trefniadau arfaethedig ar gyfer paratoi Adroddiadau Blynyddol Aelodau ar gyfer 2014/15.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro** **19 Ionawr 2015**

Atodiad 1

# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2014/15

| | |
|---|---|
| Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn. | |
| **Cynghorydd:** | |
| **Grwp:** | **Ward:** |

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| **Rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | [1]**Ffigyrau Presenoldeb** |
|---|---|
| Cyngor | |
| | |
| | |
| | |
| Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. | |

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (wedi mynychu ….. cyfarfod).

Rwyf hefyd yn cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:

## 2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

[1] Darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

**4 - Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

| | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

**5 – Gweithgareddau a Materion Eraill**